



Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru



Swyddog yr Amgylchedd

Pecyn Recriwtio

Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH
ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel, a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.

Ble rydym wedi'n lleoli

Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

- Aberystwyth, Ceredigion
- Bangor, Gwynedd
- Conwy
- Dolgellau, Gwynedd
- Helygain, Wrecsam
- Llandrindod, Powys
- Drenwydd, Powys



Teitl y swydd: Swyddog yr Amgylchedd

Cyflog: S4 - £38,510 - £40,444

Cyfnod: Parhaol

Lleoliad:— un o'r swyddfeydd canlynol – Bangor, Conwy, Dolgellau, Helygain

Dyddiad cau: 17/10/2026

Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.

Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth? Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi.

Rydym yn chwilio am Swyddog yr Amgylchedd i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.

Ymgeisiwch

Pwrrpas y swydd

Pwrrpas y swydd hon yw cynorthwyo Tîm yr Amgylchedd i weithredu gofynion deddfwriaethau amgylcheddol a pholisïau Llywodraeth Cymru (LIC).

Mae Swyddogion yr Amgylchedd yn gyfrifol am reoli a gweithredu rhaglen dreigl o arolygiadau ystadau meddal ac arolygon ecolegol ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd yn unol â Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru (WGTRMM), Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd (DMRB) a Deddf Priffyrdd (1980). Adnabod, rheoli a gwella'r rhestr o ystadau meddal a'r rhestr asedau ecolegol gan gynnwys seilwaith bywyd gwyllt yn unol ag ymrwymïadau WGTRMM, DMRB a LIC.

Mae Swyddogion yr Amgylchedd hefyd yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu a gwella'r ffordd y cesglir data am Ystadau Meddal / ENVIS a data amgylcheddol arall, a sut y caiff y data ei ddefnyddio. Rheoli gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i raglennu, gwaith arferol, adweithiol a gwaith rheoli amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r ystâd feddal ac asedau ategol (e.e. Rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynol (INNS), plannu coed, gwaith blodau gwyllt, seilwaith bywyd gwyllt ac ati) gan gynnwys goruchwyllo gwaith.



Swyddogaeth Arolygu a Rhestr Eiddo

- Cynorthwyo gyda'r gwaith o reoli arolygiadau amgylcheddol gan gynnwys y rhestr ystadau meddal a bywyd gwyllt/ecolegol ar y rhwydwaith cefnffyrdd yn unol â gofynion Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru, Deddf Prifffyrdd (1980) a systemau rheoli asedau Llywodraeth Cymru.
- Cynnal arolygiadau ar gyfer creu gwybodaeth am restr ystadau meddal a rhestr ecolegol sy'n manylu ar asedau newydd a phresennol yn unol â WGTRMM gan gynnwys coetiroedd, glaswelltiroedd, cyrff dŵr, ardaloedd amwynderau, asedau bioamrywiaeth (megis blychau yslumod, twneli moch daear, llochesi gaeafgysgu). Mae data'r arolwg i gael ei gofnodi o fewn systemau rheoli asedau LIC.
- Rhaglennu a chynnal arolygiadau ystadau meddal / amgylcheddol i gydymffurfio â WGTRMM, deddfwriaeth ac ymrwymadau i bolisiâu eraill gan Lywodraeth Cymru.

Swyddogaeth Arolwg Ecolegol ac Amgylcheddol

- Cynnal gwiriadau ar gyfer adar nythu yn unol â gofynion trwydded adar yr Asiant (ar gyfer gwaith na ellir ei wneud y tu allan i'r tymor nythu).
- Cynorthwyo gyda gwaith rheoli arolygon ecolegol ar y rhwydwaith cefnffyrdd yn unol â gofynion Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru, ymrwymadau i gynlluniau a chyllidebau.
- Cynnal arolygon manylach o'r ystâd feddal (e.e. asesiadau cyflym o leiniau glaswelltir blodeuog) er mwyn galluogi camau rheoli priodol i gael eu hadnabod a'u caffael mewn modd amserol.

Rheolaeth

- Dirprwyo ar ran y Cydlynnydd Amgylcheddol pan fo angen.
- Rheoli darparwyr gwasanaethau allanol (Contractwyr / Gweithlu Awdurdod Partner / Darparwyr gwasanaethau allanol eraill) gan gynnwys darparu cyfarwyddiadau / goruchwyliaeth / archwiliadau gwaith).
- Cynorthwyo a chynghori tîm yr Amgylchedd a Llywodraeth Cymru ynghylch gwelliannau i fioamrywiaeth, tirwedd ac/neu reolaeth amgylcheddol.

Swyddogaeth Cynnal a Chadw a Gwella

- Cynorthwyo gyda rheoli'r gwaith o gomisiynu, gweithredu a chydymffurfio â swyddogaethau cynnal a chadw sydd wedi'u rhaglennu, a swyddogaethau arferol ac adweithiol sy'n gysylltiedig â'r ystâd feddal.
- Rheoli gwaith atgyweirio diffygion a swyddogaethau cynnal a chadw arferol o fewn cyfyngiadau amser tymhorol, y cyllidebau sydd ar gael a chyfyngiadau o ran arwynebedd ffyrdd.
- Darparu cymorth i dimau'r Asiant a'r gadwyn gyflenwi i reoli'r risgiau o niweidio neu darfu ar ecosystemau yn unol â deddfwriaeth, polisi a chanllawiau arfer orau.



Manylion Person

Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

Nodweddion Personol

Hanfodol

Gallu gweithio mewn amgylchedd tîm

Ymroddgar ac â'r gallu i gymell ei hun

Sgiliau rhyngpersonol da

Gallu gweithio'n ddiogel dan bwysau

Gallu gweithio gyda dim ond ychydig o oruchwyliaeth

Sgiliau trefnu da

Gallu gwneud gwaith arolygu ar y safle, yn aml mewn ardaloedd sydd yn agos at gefnffyrdd cyflym

Gweithio oriau y tu allan i oriau arferol yn aml, yn ôl y gofyn

Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

Hanfodol

HNC/HND/NVQ (Lefel 4) mewn pwnc yn ymwneud â'r amgylchedd a phum mlynedd o brofiad yn y diwydiant NEU Radd neu MSc mewn pwnc yn ymwneud â'r amgylchedd.

Profiad perthnasol

Hanfodol

Profiad o archwiliadau ac arolygon amgylcheddol

Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

Hanfodol

Gallu defnyddio Systemau Gwybodaeth Daearyddol (GIS)

Gallu gweithio ar ei liwt ei hun ac fel rhan o dîm

Sgiliau cyfathrebu datblygedig iawn, ar lafar ac yn ysgrifenedig

Sgiliau trefnu da

Creadigrwydd a sgiliau datrys problemau

Gallu addasu'n gyflym i sefyllfaoedd sy'n newid

Gwybodaeth am ddeddfwriaeth lechyd a Diogelwch berthnasol

Trwydded Yrru ddilys gyfredol

Sgiliau TG, defnyddio rhaglenni Microsoft Office gan gynnwys Word ac Excel

Gofynion ieithyddol

Hanfodol

Mae gallu siarad Cymraeg yn ddymunol ac Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio. Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a



- 29.5 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio'n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.



- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan [Cronfa Bensiwn Gwynedd](#).



- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!



- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith



- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.

